**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD LLUN, 19 HYDREF 2020 DYDD LLUN, 19 HYDREF 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Richard Crook (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg<br>Prif Swyddog Masnachol | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 4** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>** | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 5** | **<u>CYNIGION AM DDEPOT NEWYDD I'R CYNGOR</u>**<br><br>Gan ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth bod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a'r Rheolwr Tîm, Golwg Strydoedd.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi cynnydd ar ddatblygu Depot newydd i'r Cyngor. Mae'n amlinellu safleoedd ymgeisiol addas i gael eu hymchwilio y byddid yn mynd â nhw ymlaen fel rhan o'r cam nesaf i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gan y depot presennol arwynebedd safle amcanol o tua 15,500 metr sgwâr a lletya nifer o wasanaethau.<br><br>Oherwydd y gost i adnewyddu safle'r depot presennol teimlid y dylid hefyd ymchwilio safleoedd eraill. Edrychodd y Cyngor ar y gwaith a wnaed mewn awdurdodau eraill lle codwyd cyfleusterau tebyg. Mae'r Cyngor yn ceisio'n barhaus i ateb heriau'r targedau Dim Carbon a osodwyd ar gyfer y sector cyhoeddus sy'n cynnwys adeiladau'r Cyngor a sut mae'r Cyngor yn gweithredu eu gwasanaethau.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad ac amlinellodd y cyfleoedd cydweithio posibl, yr adolygiad a gynhaliwyd i benderfynu ar ofynion y dyfodol, maint fflyd a'r camau dylunio dechreuol. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol er mwyn cyrraedd lleoliad a ffafrir o'r safleoedd a ymchwiliwyd ein bod yn mesur ar werthusiad opsiynau gyda meini prawf yn cael eu mesur ar bob safle o ran maint, mynediad, lleoliad, cyfleoedd cydweithio a staff ar y safle.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at yr opsiynau ar gyfer argymhellion a nodwyd Opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffafrir.<br><br>Rhoddwyd trosolwg o drafodaethau yn y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a nodwyd y gwnaed cais i edrych ar leoliad ar safle'r Gweithfeydd. Nodwyd nad oedd hyn yn ddiwygiad i'r adroddiad, fodd bynnag | |

| | | |
|---|---|---|
| | cytunodd y Pwyllgor Gweithredol y dylai'r Cyfarwyddydd Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol gynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol fel mater o frys ar y lleoliad y soniwyd amdano a rhoi adroddiad yn ôl ar y canfyddiadau mewn modd priodol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yr adroddiad a'r gefnogaeth a ddarperir gan WRAP. Byddai'r prosiect yn cysylltu gyda phrosiectau ynni gwyrdd a carbon niwtral a theimlai fod hwn yn gyfle cyffrous i fynd ymlaen ag ef.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 gyda chais i edrych ar y safle a ddygwyd ymlaen gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad. | |